Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Practis Deintyddol Matthews a Jones

15 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

Digital ISBN 978-1-4734-6499-5
ⓗHawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .................... 2
2. Cyd-destun .................... 3
3. Crynodeb .................... 4
4. Canfyddiadau .................... 5
   Ansawdd Profiad y Claf .................... 5
   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .................... 8
   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................... 12
5. Y Camau Nesaf .................... 14
6. Methodoleg .................... 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o’r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Matthews a Jones yn 5 Stryd Caerwrangon, Trefynwy, NP25 3DF, ar 15 Mawrth 2016].

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Matthews a Jones yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Matthews a Jones yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Trefynwy yn Sir Fynwy. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Matthews a Jones yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, pedair nyrs, ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Mae un o'r deintyddion yn y practis yn darparu gwasanaethau gofal yn y cartref.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Matthews a Jones yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Dywedodd rheolwyr y practis wrthym eu bod yn bwriadu rhoi mesurau ar waith yn y dyfodol agos i wella'r practis.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.
- Roedd y cyfathrebu'n dda rhwng aelodau'r staff.
- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Mae angen i'r practis gynnal cyfarfodydd staff ac arfarniadau ffurfiol.
- Mae angen dilysu'r gweithdrefnau dadheintio.
- Mae angen gwella safon y cofnodion yn nodiadau'r cleifion.
- Mae angen gwella'r dull o archwilio cyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Roedd yr adborth a gawsom yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis. Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion trwy ddefnyddio blwch awgrymiadau sy'n cael ei archwilio bob mis.**G**wnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu system fwy manwl i gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Practis deintyddol da sy'n cael ei redeg yn dda. Dydw i ddim wedi cael unrhyw broblemau gydag unrhyw driniaeth, ac rydw i'n teimlo y gallaf ofyn am help neu wybodaeth os bydd ei hangen arnaf."*

> *"Rwy'n fodlon iawn ar y driniaeth a'r derbyniad."*

> *"Mae fy neintydd yn rhagweithiol wrth ofalu am fy nannedd, gan wneud gwaith ataliol yn hytrach na dim ond eu trin pan fo angen, neu wneud hynny'n ddiangen."*

Gofal gydag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dangosodd yr holiadur fod llawer o'r cleifion wedi mynychu'r practis hwn ers nifer o flynyddoedd.

Roedd taflen gynhwysfawr a oedd yn disgrifio'r practis ar gael ar gyfer y cleifion yn y dderbynfa. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau wedi'u harddangos yn y mannau aros.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac y gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Roedd y

ddeintyddfa'n darparu rhywfaint o ofal ar fore Sadwrn hefyd. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y sawl a oedd wedi profi oedi nad oeddent wedi aros yn hir iawn. Disgrifiodd y staff y broses o hysbysu cleifion pe byddai eu deintydd yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd wrth fynedfa'r practis a oedd yn cynnwys y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Roedd neges peiriant ateb y practis yn cynnwys gwybodaeth addas.

Cadw'n iach

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cydnabod bod angen hybu iechyd er mwyn cefnogi llesiant eu cleifion. Roedd amrywiaeth o daflenni a phosteri yn hybu iechyd y geg a llesiant cyffredinol, ac roedd rhai ohonynt yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu a gofalu am ddannedd plant. O edrych ar yr holiaduron a sgwrsio â chleifion, gwelwyd eu bod o'r farn eu bod yn cael digon o wybodaeth.

Gofal unigol

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol. Roedd hyn yn dangos bod y practis wedi cydnabod amrywiaeth ei gleifion a'i fod wedi ystyried ei gyfrifoldebau yn unol â deddfwriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol.

Nid oes mynediad ar gael i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ond mae ramp rhannol a chanllaw i'r adeilad er mwyn cynorthwyo cleifion sydd ag anawsterau symudedd. Mae'r ystafell driniaeth ar y llawr isaf yn hygyrch.

Roedd gan y practis flwch awgrymiadau i gasglu adborth gan gleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu system fwy manwl ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Edrychwyd ar ffeil cwynion ac roedd tystiolaeth bod sylwadau ar lafar yn cael eu nodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis y byddai'n fwy addas i gynnwys y rhain mewn llyfr cofnodi ar wahân, fel bod modd monitro'r cwynion a chanfod themâu cyffredin.

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig gweledol ar gael ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat yn eu hysbysu ynghylch sut i fynegi cwynion, ac roedd taflenni ar gael yn y man aros.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cyflwyno llyfr cofnodi cwynion er mwyn monitro pob cwyn.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ond gwnaethom argymell dilysu'r broses ddadheintio'n well.Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffig yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Roedd y practis yn bwriadu uwchraddio'r offer radiograffig a'r offer dadheintio yn y dyfodol agos.**

**Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod eu bod ar y cyfan yn cynnwys digon o fanylion, ond gwnaethom argymell rhai meysydd i'w gwella, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.**

<u>Gofal diogel</u>

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau defnyddio dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel yn y practis. Roedd diffoddwyr tân wedi’u lleoli’n strategol, ac roeddent wedi cael eu gwirio’n rheolaidd. Roedd y cywasgydd yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus, ac roedd gwastraff yn cael ei reoli'n briodol yn y practis. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n rhesymol. Roedd angen moderneiddio'r ystafelloedd triniaeth yn gyffredinol, ond roeddent yn lân ac yn daclus yn weledol.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Cynhaliwyd gweithdrefnau dadheintio yn yr ystafelloedd triniaeth trwy ddefnyddio dulliau glanhau â llaw cyn sterileiddio. Gwelsom dystysgrifau archwilio ar gyfer yr awtoclafau a oedd yn dangos eu bod wedi'u profi i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Cawsom ein hysbysu gan berchnogion y practis fod rhaglen uwchraddio ar gyfer dadheintio offer wrthi'n cael ei hystyried yn rhan o'u cynllun gwella. Gwnaethom argymell y dylent wella'r dull o ddilysu eu rhaglen gynnal a chadw ddyddiol ar gyfer pob peiriant awtoclaf. Gwnaethom awgrymu y dylent ddefnyddio llyfrau cofnodi penodol ar gyfer y peiriannau awtoclaf gan sicrhau bod y gwiriadau dyddiol yn cael eu cofnodi'n gywir.

Roedd digon o offer ar gael a chawsant i gyd eu storio'n briodol a'u dyddio fel bod staff yn gwybod bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio ar gyfer triniaethau'r

cleifion. Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael. Roedd sinc benodol ar gyfer golchi dwylo.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis. Cawsant eu cadw mewn modd priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). Dywedodd perchnogion y practis wrthym fod meddyginiaethau a ddefnyddiwyd mewn achosion brys yn cael eu gwirio i sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad dod i ben. Roedd offer a ddefnyddiwyd mewn achosion brys yn cael eu gwirio hefyd i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis wirio meddyginiaethau ac offer a ddefnyddiwyd mewn achosion brys yn rheolaidd a diweddaru eu llyfrau cofnodi er mwyn adlewyrchu hyn.

Roedd y practis wedi sefydlu polisi dadebru a gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i wneud dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw'n ymwybodol o'u rolau yn ystod argyfwng meddygol. Roedd perchnogion y practis yn swyddogion cymorth cyntaf penodedig.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom bolisi amddiffyn plant a pholisi ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant. Roedd yr holl staff, ac eithrio un cyflogai newydd, wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed. Bydd yr aelod newydd hwn o staff yn cael ei gynnwys yn y sesiwn hyfforddi amddiffyn oedolion agored i niwed nesaf.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y practis yn gwneud gwiriadau cyn-cyflogaeth ar gyfer unrhyw aelodau posibl o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Mae rhaglen sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff er mwyn helpu i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol.

Gwelsom ddogfennau oedd yn nodi bod y peiriannau pelydr-X wedi'u gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Cafodd un peiriant (Belmont 066) ei gomisiynu yn 1985 a dylid cael un arall yn ei le yn ôl cynllun gwella arfaethedig y practis. Roedd yr holl staff a oedd yn ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant i fodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Arddangoswyd cyfarwyddiadau'r peiriannau a'r mannau rheoledig, ond nid oedd y switsh ynysu ar gyfer yr offer yn Ystafell Driniaeth 1 wedi'i nodi yn y cynllun. Gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r cynllun i gynnwys hyn.

Gwelsom gofnodion priodol ynghylch statws imiwnedd Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, sy'n dangos bod y practis wedi cymryd camau i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y dull o ddilysu'r rhaglenni cynnal a chadw dyddiol ar gyfer pob peiriant awtoclaf yn glynu wrth y canllawiau cyfredol.***

***Dylid diweddaru cynllun yr offer radiograffig yn yr ystafell driniaeth i ddangos lleoliad y switsh ynysu ar gyfer ymbelydredd.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir a monitro'i gynnydd yn barhaus. Gwelwyd cofnodion o archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer sganiau pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau, ond canfuom fod rhai anghysondebau wrth gofnodi'r rhain. Gwnaethom argymell y dylid cynnal archwiliadau yn y dyfodol mewn modd a fyddai'n sicrhau eu bod yn gywir ac a fyddai'n adlewyrchu arferion gorau.

Mae staff clinigol yn mynychu adolygiadau gan gymheiriaid gyda deintyddion mewn practis lleol. Maent hefyd yn cymryd rhan yn y trefniadau sicrhau ansawdd blynyddol y mae'r bwrdd iechyd lleol yn eu darparu.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom argymell y dylid cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

<u>Cofnodion cleifion</u>

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fechan o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd yn y practis. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl gofnodion cleifion ar ffurf papur yn unig. Roedd hyn yn golygu bod gofod cyfyngedig ar gardiau cofnod y cleifion i'r deintyddion ysgrifennu nodiadau. Gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

Dylid ceisio caniatâd yn barhaus a'i nodi'n gyson.

Dylid cofnodi hanes cymdeithasol cleifion yn gyson, gan gynnwys ysmygu, yfed alcohol, a hylendid y geg.

Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi sgrinio canser y geg yng nghofnodion y cleifion.

Roedd tystiolaeth o gynllunio triniaeth, ond nid oedd y dewisiadau o ran triniaethau wedi'u nodi bob amser.

Nid oedd cyfiawnhad dros gymryd radiograffau wedi'i nodi bob amser, nac ychwaith y canfyddiadau clinigol yn dilyn sganiau pelydr-X. Nid oedd gradd ansawdd y sgan pelydr-X (Sicrwydd Ansawdd 1, 2 neu 3) wedi'i nodi.

Mewn rhai achosion, nid oedd canfyddiadau'r archwiliadau periodontol sylfaenol bob amser yn gyson â chanfyddiadau'r sganiau pelydr-X.

Nid oedd y rhesymau dros ailalw wedi'u nodi bob amser (canllawiau NICE).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'n rheolaidd:***

***Llofnodi i roi caniatâd parhaus***

***Dewisiadau o ran triniaethau***

***Hanes cymdeithasol***

***Cyfiawnhad dros sganiau pelydr-X ynghyd â'r canfyddiadau***

***Ailalw cleifion***

***Archwiliad periodontol sylfaenol.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Rhennir y cyfrifoldeb dros reoli’r practis o ddydd i ddydd rhwng perchnogion y practis.Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y cyfathrebu'n dda rhwng aelodau'r staff, a dirprwywyd y tasgau mewn modd priodol.Gwnaethom argymell y dylid ffurfioli'r cyfarfodydd staff a'r arfarniadau.Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwnaethom argymell y dylid trefnu'r ffeiliau fel bod y wybodaeth ddiweddaraf ar wahân, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn rhwydd i'w defnyddio.**

Cyfrifoldeb y ddau bartner practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd tîm o staff cymwys a chyfeillgar yn y practis. Roedd y cyfathrebu'n dda yn fewnol a dangosodd y staff ymroddiad i ofalu am eu cleifion.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swyddogaethau a’u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom fod y deintyddion yn y practis yn cymryd rhan mewn trefniadau llywodraethu clinigol/sicrhau ansawdd digonol. Roeddent yn mynychu cyfarfodydd adolygu gan gymheiriaid gyda deintyddion lleol eraill, ac yn cymryd rhan yn y cynllun sicrhau ansawdd blynyddol a sefydlwyd gan y bwrdd iechyd lleol.

Roedd y cyfathrebu'n dda ymysg y staff yn y practis. Dywedwyd wrthym yn ystod cyfweliadau â'r staff eu bod yn teimlo y byddent yn gallu trafod pryderon neu anghenion hyfforddi gyda'r partneriaid practis pa bryd bynnag y byddai angen iddynt wneud hynny. Roedd y practis wedi dechrau cynnal cyfarfodydd practis yn ddiweddar, a gwnaethom argymell y dylid cynnal y rhain yn rheolaidd a gwneud trefniadau mwy ffurfiol i nodi cofnodion manwl a chanlyniadau. Roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygiad personol yn eu ffeiliau, ond ni chynhaliwyd unrhyw arfarniadau ffurfiol. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis gynnal arfarniadau ffurfiol ar gyfer pob aelod o'r staff bob blwyddyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid ffurfioli'r cyfarfodydd practis.***

***Dylai’r practis sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn.***

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag

AGIC, ac arddangoswyd eu tystysgrifau cofrestru yn y practis. Roedd yswiriant indemniad priodol wedi'i arddangos.

Gwelsom fod systemau ar waith yn y practis i sicrhau bod pob aelod newydd o'r staff yn derbyn hyfforddiant sefydlu addas, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau ar gyfer y practis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd, ond gwnaethom argymell y dylid trefnu'r ffeiliau fel bod y wybodaeth ddiweddaraf ar wahân, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn rhwydd i'w defnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Trefnu'r ffeiliau sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau’r practis yn well er mwyn hwyluso eu defnydd.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Matthews a Jones yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses arolygiad deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae’r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Matthews a Jones

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Cyflwyno llyfr cadw cofnod i fonitro cwynion. | Safon Iechyd a Gofal 6.3, Safon 5.1.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Mae llyfr cadw cofnod bellach ar gael, a bydd y derbynnydd yn cofnodi unrhyw sylwadau perthnasol ac unrhyw gwynion gan gleifion. | Aled Jones | Cwblhawyd 16/03/2016 |
| | | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau bod y dull o ddilysu'r rhaglenni cynnal a chadw dyddiol ar gyfer pob peiriant awtoclaf yn glynu wrth y canllawiau cyfredol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 14(2); Safonau Iechyd a Gofal 2.9 | Prynwyd llyfrau cadw cofnod o gydymffurfiaeth ar gyfer y gwaith cynnal a chadw dyddiol, sy'n ein galluogi i ddogfennu a dilysu'r broses o lanhau â llaw, y defnydd o'r baddon uwchsonig, a gweithredu'r cylchred awtoclaf.<br>Mae'r cylchrediadau ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol erbyn hyn. | Aled Jones | Cwblhawyd 25/04/2016 |
| 9 | Dylid diweddaru cynllun yr offer radiograffig yn yr ystafell driniaeth i ddangos lleoliad y switsh ynysu ar gyfer ymbelydredd. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000; Yr | Mae cynllun yr offer radiograffig yn y ffeil ymbelydredd wedi'i ddiwygio i ddangos lleoliad y switsh ynysu. | Aled Jones | Cwblhawyd 16/03/2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | | | |
| 9 | Gwnaethom argymell y dylid cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 | Bydd archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol yn cael eu diweddaru a'u hadolygu yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Aled Jones | Cwblhawyd 16/03/2016 |
| 10 | Dylai nodiadau cleifion gynnwys cofnodion cyson o:<br><br>Lofnodion i roi caniatâd parhaus<br><br>Dewisiadau o ran triniaethau<br><br>Hanes cymdeithasol<br><br>Cyfiawnhad dros sganiau pelydr-X ynghyd â'r canfyddiadau<br><br>Adalwadau cleifion<br><br>Archwiliadau periodontol sylfaenol. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 | Mae Templed Datblygiad bellach wedi'i gynllunio ar sail Archwiliad Cadw Cofnodion Clinigol DF1 2013.<br><br>Mae wedi'i addasu ar gyfer ein practis, wedi'i deipio a'i lamineiddio, ac mae ar gael i bob deintydd yn ei ystafell driniaeth i'w ddefnyddio'n gyson gyda phob claf. | Aled Jones ac Anthony Matthews | Cwblhawyd 05/05/2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 11 | Dylid ffurfioli'r cyfarfodydd practis. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.4, 6.6 | Bydd pob trafodaeth â staff yn cael ei chofnodi fel arfer yn nodiadur y staff, gan nodi'r bobl sy'n bresennol. Gan ein bod yn bractis bychan gyda dau ddeintydd a phum aelod o staff rhan amser, mae'r cyfathrebu rhwng y staff yn dda a chyson, fel sy'n cael ei gydnabod yn adroddiad AGIC.<br><br>Byddwn yn cael cyfarfod staff ffurfiol bob pedwar mis i drafod pwyntiau penodol.<br><br>Pe byddem o'r farn y byddai cynnal cyfarfod ffurfiol yn fwy rheolaidd yn briodol, h.y. os bydd aelod newydd o staff, bydd hyn yn cael ei newid yn unol â hynny. | Aled Jones ac Anthony Matthews | Cwblhawyd 05/05/2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dylai’r practis sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1 | Bydd trafodaethau/arfarniadau staff unigol â deintydd perthnasol yn cael eu trefnu'n rheolaidd ar gyfer mis Rhagfyr bob blwyddyn, ac yn cael eu cofnodi. | Aled Jones | Cwblhawyd 25/04/2016 |
| 12 | Dylid trefnu'r ffeiliau sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau’r practis yn well er mwyn hwyluso eu defnydd. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 7.1; Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6 | Mae ffeiliau polisïau, gweithdrefnau, a gwasanaethu offer y practis wedi'u had-drefnu.<br><br>Mae Ffeil Polisïau benodol, gyda'r holl bolisïau cyfredol a'r polisïau a edrychir arnynt yn rheolaidd, bellach yn yr un ffeil er mwyn caniatáu defnydd rhwydd.<br><br>Mae pob ffeil arall wedi'i marcio'n fwy amlwg, ac mae pob dogfen cynnal a chadw a gwasanaethu offer sy'n hen wedi'i rhoi mewn archif, gyda chontractau cyfredol yn unig wrth law. | Aled Jones | Cwblhawyd 05/05/2016 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras): ..........Aled V Jones.......................................................**

**Teitl: .........Deintydd/Perchennog/Prif Ddeintydd.................**

**Dyddiad: .........06/05/2016......................................................................**